

## Y Brifysgol Agored yng Nghymru - Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Adnewyddu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru 2016



### Y Brifysgol Agored yng Nghymru

1. Sefydlwyd Y Brifysgol Agored yn 1969 a chofrestrodd y myfyrwyr cyntaf yn 1971. Mae'n arweinydd byd-eang o ran cynnig cyfleoedd dysgu o bell hyblyg ac arloesol ar lefel addysg uwch (AU). Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o safon uchel i bawb sy'n dymuno cyflawni eu huchelgais a gwireddu eu potensial.
2. Mae dros 7,000 o fyfyrwyr dros Gymru gyfan yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac maent wedi'u cofrestru ar oddeutu 10,000 o fodiwlau. Mae myfyrwyr y Brifysgol Agored ym mhob un o etholaethau Cynulliad Cymru a ni yw darparwr addysg uwch israddedig rhan amser mwyaf blaenllaw'r wlad. Mae bron dri o bob pedwar o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored mewn cyflogaeth tra eu bod yn astudio a chyda pholisi derbyniadau agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae dros draean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn dod atom heb gymwysterau mynediad safonol i brifysgol.
3. Yn 2015, am yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol, daeth Y Brifysgol Agored i'r brig yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru am 'fodddhad myfyrwyr cyffredinol'. Fel arweinydd byd-eang ym maes technoleg addysg, mae ein portffolio 'cynnwys agored' eang yn cynnwys unedau astudio am ddim ar y llwyfan dysgu am ddim ar-lein [OpenLearn](#) (gan gynnwys llawer o ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â Chymru a'n llwyfan Cymraeg [OpenLean Cymru](#)) a chynnwys sylweddol ar YouTube ac ar iTunesU lle mae ein deunydd wedi cael ei lawrlwytho dros 70 miliwn o weithiau.

### Canolfan True Potential ar gyfer Meithrin Dealltwriaeth y Cyhoedd o Gyllid Ysgol Fusnes Y Brifysgol Agored

4. Wedi'i lleoli yn Ysgol Fusnes Y Brifysgol Agored, mae Canolfan True Potential ar gyfer Meithrin Dealltwriaeth y Cyhoedd o Gyllid (True Potential PUFIn) yn ganolfan ragoriaeth arloesol ar gyfer ymchwil ac addysgu mewn perthynas â gallu ariannol personol. Mae'n dwyn ynghyd academyddion ag arbenigedd mewn meysydd megis rheoleiddio, trethiant, agweddau defnyddwyr, cymhellion ac ymddygiad, a marchnata cymdeithasol. Caiff True Potential PUFIn ei chefnogi gan True Potential LLP. Barn yr academyddion cysylltiedig yw unrhyw farn a fynegir gan True Potential PUFIn ac nid yw'n angenrheidiol yn adlewyrchu barn True Potential LLP. Ceir rhagor o wybodaeth am waith True Potential PUFIn ar ein [gwefan <http://www.open.ac.uk/business-school-research/pufin/>](http://www.open.ac.uk/business-school-research/pufin/).

### Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

5. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru ac academyddion wedi'u lleoli yng Nghanolfan True Potential PUFIn wedi cydweithio i lunio'r ymateb hwn i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar adnewyddu strategaeth cynhwysiant ariannol Cymru.

### Ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth ar gyfer cynhwysiant ariannol?

6. Ydyn. Mae'n uchelgeisiol, yn dda ei bwriad ac yn ymddangos yn gynhwysfawr.

***Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wella'r broses o gael gafael ar greddydd fforddiadwy a gwasanaethau ariannol?***

7. Ydyn. Rydym yn cydnabod y cynlluniau i gefnogi a datblygu'r cysylltiadau gydag undebau credyd i feithrin twf credyd fforddiadwy ar gyfer y sawl sy'n methu â chael gafael ar gyllid prif ffrwd neu sydd â gallu cyfyngedig i wneud hynny. Mae hyn yn gyson â gweithgareddau tebyg sy'n digwydd mewn mannau eraill o'r DU. Yr unig amheuaeth sydd gennym yw ynghylch gallu'r undebau credyd i wneud mwy i ehangu'r gallu i gael gafael ar greddydd fforddiadwy a gwasanaethau ariannol eraill o ystyried eu maint cymharol fach a'u gallu cyfyngedig i hyrwyddo a marchnata eu gwasanaethau. Mae cap llog yr undeb credyd hefyd yn cyfyngu ar y math o fenthycwyr y gall undebau credyd eu gwasanaethu. Nid oes gan sefydliadau datblygu cyllid cymunedol gap llog ac fel arfer maent yn benthyca i fenthycwyr ar incwm is nag undebau credyd. Rydym felly yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda darparwyr eraill, nid undebau credyd yn unig. Efallai y dylid canolbwyntio mwy ar y cymdeithasau adeiladu a benthycwyr cydfuddiannol eraill sy'n gweithredu yng Nghymru er mwyn ehangu'r stoc o greddydd hygyrch a fforddiadwy. Yr aelodau sy'n berchen ar y cwmnïau cydfuddiannol ac felly maent mewn sefyllfa well i ganolbwyntio ar anghenion eu cwsmeriaid yn hytrach na bodloni disgwyliadau'r rhandeiliaid.

***Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i wella'r broses o gael gafael ar wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyled?***

8. Ydyn. Rydym yn cytuno â'r cynlluniau i gyfuno ac egluro'r lluo o wasanaethau'r llywodraeth a gwasanaethau elusennol a gwirfoddol sy'n rhoi canllawiau am ddim ar reoli arian personol mewn modd gwirioneddol hygyrch - er enghraifft, Canolfan Gyngor ar Bopeth Cymru, y Gwasanaeth Cyngor Ariannol (MAS), StepChange, Pension Wise, y Gwasanaeth Cyngori ar Bensiynau (TPAS) ac Age Cymru. Yr her fydd i sicrhau bod gwasanaeth Money Made Clear Cymru yn glir ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Ni fydd hyn yn hawdd o ystyried nifer y sefydliadau a fyddai am gael cyhoeddusrwydd drwy'r gwasanaeth, neu a fyddai'n disgwyl hynny. At hynny, bydd angen datrys materion yn ymwneud â gorgyffwrdd ym meysydd y cymorth a ddarperir yn ogystal â rhywfaint o ddryswch ymysg defnyddwyr ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng arweiniad a chyngor.

***Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i feithrin dealltwriaeth a gallu ariannol?***

9. Ydyn. Dylai hefyd fod adnodd penodol ar-lein yn cynnig cysylltiadau i wasanaethau addysg (am ddim). Darperir addysg ariannol bersonol mewn ysgolion - ond dim ond hyd at Gyfnod Allweddol 4. Dylid ehangu addysg ariannol bersonol a'i hatgyfnerthu ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 12 a 13. Dylid hefyd sicrhau bod addysg ariannol bersonol yn fwy hygyrch yn y gweithle.
10. Byddem yn dadlau y dylai unrhyw adnodd ar-lein o'r fath gynnwys fersiynau OpenLearn Y Brifysgol Agored o *Managing My Money*, *Managing My Investments* ac, o fis Hydref 2016, *Managing My Money in the financial market place*. Cafodd y rhain eu datblygu gan True Potential PUFIn ac maent yn darparu addysg ar reolaeth ariannol bersonol a'r diwydiant gwasanaethau ariannol. Y cwrs mwyaf priodol ar gyfer datblygu sgiliau rheolaeth ariannol bersonol yw *Managing My Money*. Mae'r cwrs hwn sy'n rhad ac am ddim hwn wedi'i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu ei sgiliau rheolaeth ariannol i wneud penderfyniadau da wrth reoli ei arian ac wrth brynu cynhyrchion ariannol. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol o astudio'r pwnc hwn ar gyfer y cwrs. Mae'r cwrs wedi'i ddylunio i redeg ar gyfrifiaduron

desg, llechi a dyfeisiau symudol. Ceir rhagor o wybodaeth am y cwrs ar ddiwedd ein hymateb.

**Rydym yn cynnig dull cydweithredol o gefnogi cynhwysiant ariannol i bawb yng Nghymru. A ydych yn cytuno â dull cydweithredol?**

11. Ydyn. Bydd angen mynd i'r afael â chyfrifoldebau ac arweinyddiaeth o fewn y fenter gydweithredol a'u gwneud yn glir i bawb sy'n cymryd rhan.

**A oes gennych unrhyw awgrymiadau ychwanegol ar gydweithio i gefnogi cynhwysiant ariannol?**

12. Nac oes.

**A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r Strategaeth Gynhwysiant Ariannol ddrafft?**

13. Nac oes.

**A hoffech roi sylwadau ar yr Aseidiadau drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb neu ar yr Iaith Gymraeg neu roi tystiolaeth i'w cynnwys ynddynt?**

14. Na.

**Rhagor o wybodaeth am *Managing My Money*.**

15. Mae'r cwrs *Managing my Money* yn dechrau drwy ddarparu canllawiau ymarferol ar sut i lunio cyllideb a'i defnyddio i wneud penderfyniadau da ynglŷn â'ch gwariant. Mae'r cwrs yn symud ymlaen i ystyried dyledion a buddsoddiad a sut y caiff morgeisi eu defnyddio i ariannu perchentyaeth. Caiff y broses o gynllunio pensiwn, sy'n fater hollbwysig, ei egluro, gyda chanllawiau ar gynhyrchion pensiwn gwahanol. Daw'r cwrs i ben drwy ystyried y gwahanol fathau o yswiriant a chynnig cyngor ymarferol ar sut i wneud penderfyniadau rhesymegol ar ba gynhyrchion yswiriant i'w prynu.
16. Drwy ddefnyddio'r data diweddaraf o'r DU, mae'r cwrs yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu sgiliau a dulliau ariannol sy'n berthnasol yn fyd-eang. Mae'r cwrs yn llawn testun, delweddau, fideo, sain ac elfennau rhyngweithiol o ansawdd uchel i gefnogi dysgu. Mae profion amlddewis ar ddiwedd pob wythnos o astudio yn sicrhau y gellir olrhain cynnydd ar hyd y broses o ddysgu am gyllid personol.
17. Rhai o'r nodweddion mwyaf defnyddiol, yw'r heriau ariannol, cynlluniau a chyfrifianellau a ddefnyddir drwy gydol y cwrs. Gall y sawl sy'n astudio *Managing My Money* wybod eu sgôr yn y prawf arferion ariannol drwg, adeiladu cyllideb personol a thaflen balans y cartref, a datblygu eu 'taflen ffeithiau' eu hunain i'w chadw ar ddiwedd y cwrs. Mae'r daflen ffeithiau ar gael i'w defnyddio drwy gydol y cwrs i gofnodi nodau personol ac amgylchiadau ariannol.
18. Caiff y cwrs hwn ei gyflwyno ar [OpenLearn](#) (cartref dysgu am ddim Y Brifysgol Agored) a chaiff ei gyflwyno eto ar [FutureLearn](#) yn 2016. Gallwch hefyd ddilyn y gyfres radio *Managing My Money* ar [ShareRadio](#).
19. Byddai'r Brifysgol Agored yng Nghymru a True Potential PUFIn yn croesawu'r cyfle i drafod ein gwaith ar gynhwysiant ariannol a'n cyrsiau gallu ariannol yn fanylach gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

17 Rhagfyr 2015

Cyswllt: Michelle Matheron Ffôn: 029 2026 2708 E-bost: [Michelle.Matheron@open.ac.uk](mailto:Michelle.Matheron@open.ac.uk)